

Canllaw ychwanegol ar Ddadansoddi'r Sefyllfa a'r Ymateb mewn Asesiad o Lesiant Lleol

Cefndir

Mae'r nodyn cyfarwyddyd byr hwn yn atodol i ganllaw anstatudol 2015: Byrddau gwasanaethau lleol: canllaw ar ddefnyddio tystiolaeth a dadansoddi. Mae'n ymdrin yn benodol â Dadansoddi'r Sefyllfa a Dadansoddi'r Ymateb ac mae'n anelu at egluro'r rolau y dylent eu chwarae mewn perthynas â'r Asesiad o Lesiant Lleol. Ar hyn o bryd, nid yw'n mynd i'r afael â defnyddio tystiolaeth yn y Cynlluniau Llesiant Lleol.

Datblygwyd y canllaw atodol yn dilyn cyfres o glinigau galw heibio ar gyfer Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ledled Cymru ym mis Mai a mis Mehefin 2016, lle gwelwyd mai Dadansoddi'r Sefyllfa a Dadansoddi'r Ymateb oedd y mater a drafodwyd fwyaf aml ymhlith pobl yn gweithio ar Asesiadau o Lesiant Lleol. Cynigiwyd eglurhad yn y clinigau galw heibio hynny o'r ffordd y dylai Dadansoddi'r Sefyllfa a Dadansoddi'r Ymateb gyd-fynd â chynllun o weithgareddau yn ymwneud ag asesu llesiant. Mae'r nodyn hwn yn crynhoi'r pwyntiau hyn o eglurhad¹ a bwriedir iddo fod yn ganllaw ychwanegol i BGCau.

Beth yw Dadansoddi'r Sefyllfa a Dadansoddi'r Ymateb?

Negeseuon allweddol:

- Nid yw Dadansoddi'r Sefyllfa a Dadansoddi'r Ymateb yn endidau ynddynt eu hunain.
- Mae gwahanol ffurfiau o ddadansoddi gyda dibenion a dulliau gwahanol, y dylid eu defnyddio ochr yn ochr â'i gilydd mewn Asesiadau o Lesiant Lleol.

Dadansoddi'r Sefyllfa yw dadansoddiad cyffredinol o lesiant diwylliannol, cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol mewn ardal, a fydd yn creu dealltwriaeth o gyd-destun, heriau a chyfleoedd ardal ac yn dechrau amlygu ardaloedd y gallai BGCau eu blaenoriaethu o bosib. Mae Dadansoddi'r Sefyllfa yn debygol o fod yn *bennaf* yn feintiol ei natur, drwy ddefnyddio ystadegau cryno, cyfres amser a phatrymau gofodol i greu darlun cyffredinol o lesiant ardal. Gall Dadansoddi'r Sefyllfa hefyd gynnwys tystiolaeth ansoddol, lle bo'n berthnasol, i ychwanegu at ddadansoddiad meintiol.

Mae **Dadansoddi'r Ymateb** yn ffurf fwy manwl o ddadansoddi a fydd yn defnyddio tystiolaeth mewn ffordd fwy heriol, gwerthusol i wneud y canlynol:

- Ystyried y ffactorau sy'n llywio neu achosi'r patrymau a'r tueddiadau a nodwyd wrth Ddadansoddi'r Sefyllfa;

¹ Er mwyn gosod y nodyn canllaw hwn yn ei gyd-destun llawn, atgoffir darllenwyr nad oes gan Dadansoddi Sefyllfa na Dadansoddi Ymateb unrhyw statws cyfreithiol ac nid oes unrhyw ofyniad i llynu atynt fel model dadansoddol. Fodd bynnag, maent wedi cael eu derbyn a'u mabwysiadu'n helaeth gan y BGCau.

- Llywio'r dewis o flaenoriaethau ar gyfer ardaloedd lleol gan y BGC, a fydd yn ei dro yn llywio trafodaethau ynghylch cynnwys y Cynllun Llesiant Lleol;
- Asesu'r posibiladau ar gyfer y ffordd y gallai gwasanaethau lleol ymateb i heriau neu gyfleoedd penodol (neu'r ffordd maent yn ymateb ar hyn o bryd);

Gall Dadansoddi'r Ymateb naill ai fod yn ansoddol neu'n feintiol ei natur, ond dylai anelu at ddatblygu esboniadau ac archwilio achosion, yn hytrach na disgrifio patrymau a thueddiadau.

Mae Tabl 1 yn dangos y gwahaniaethau allweddol rhwng Dadansoddi'r Sefyllfa a'r Ymateb:

Tabl 1: y prif wahaniaethau rhwng Dadansoddi'r Sefyllfa a Dadansoddi'r Ymateb

Dadansoddi'r Sefyllfa	Dadansoddi'r Ymateb
Disgrifiadol – edrych ar beth, ble, faint? a beth sydd wedi newid	Esboniadol – edrych ar pam, sut, felly a beth os?
Meintiol yn bennaf – ystadegau cryno, cyfres amser, amrywiaeth gofodol. Defnyddio tystiolaeth ansoddol er mwyn helpu i greu darlun cyffredinol o lesiant ardal.	Dulliau cymysg – cyfuno data ansoddol a meintiol i ensynio achosion, deall ffactorau, esbonio patrymau a datblygu a gwerthuso ymyriadau.
Yn ymwneud yn bennaf â'r ffordd mae pethau - crynodeb o sefyllfa llesiant ardal ar hyn o bryd	Yn ymwneud â pham bod pethau fel y maent; pa ffactorau sy'n effeithio ar lesiant lleol; effaith ymyriadau presennol ar lesiant; a pha fathau o ymyriadau a allai weithio tuag at lesiant yn y dyfodol.
Cynhwysfawr – cwmpasu pedwar parth Lles yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r cysylltiadau ar eu traws	Dewisol – nodi is-set o faterion i'w harchwilio yn fanylach

Mae dealltwriaeth o'r mathau o weithgareddau sy'n gyfystyr â Dadansoddi'r Sefyllfa yn llawer cryfach nag ar gyfer Dadansoddi'r Ymateb. O ran ei natur, mae Dadansoddi'r Ymateb yn anoddach i'w ddiffinio a'i gysoni â chyfres o weithgareddau. Ond yn ddangosol, gallai Dadansoddi'r Ymateb gynnwys elfennau o'r canlynol²:

²Dim ond enghreifftiau o'r mathau o ddadansoddi y *gallai* BGCau eu defnyddio yw'r rhain; nid ydynt yn argymhelliad o'r hyn y *dylai* Dadansoddi'r Ymateb ei gynnwys.

- Adolygu tystiolaeth ymchwil ar wahanol fathau o broblemau ac ymyriadau, yn enwedig yn ymwneud â systemau achosol a'r ffactorau yn dylanwadu ar lesiant;
- Archwilio data ymhellach drwy ystadegau casgliadol (e.e. atchwel, profi arwyddocâd, dadansoddi amrywiad);
- Ymchwil ansoddol trylwyr gydag unigolion neu grwpiau, i archwilio agweddau, deall ffactorau neu brofi syniadau;
- Gwerthusiadau i brofi effeithiolrwydd ymyriadau ac asesu'r canlyniadau maent yn eu cynhyrchu.

Y Berthynas rhwng Dadansoddi'r Sefyllfa a Dadansoddi'r Ymateb

Negeseuon allweddol:

- Nid oes angen i Ddadansoddi'r Ymateb chwarae rhan fawr mewn Asesiadau o Lesiant Lleol; mae ei brif rôl yn debygol o fod mewn perthynas â'r Cynllun Llesiant Lleol
- Yn realistig, bydd yr Asesiad o Lesiant Lleol yn cynnwys 80-90% o Ddadansoddi'r Sefyllfa a 10-20% o Ddadansoddi'r Ymateb.

Mae'r cwestiynau ynglŷn â ble mae Dadansoddi'r Sefyllfa a Dadansoddi'r Ymateb yn gweddu o fewn Asesiad o Lesiant Lleol, a'r ffordd maent yn ymwneud â'i gilydd, wedi cael eu gofyn yn aml.


Dylid nodi yn gyntaf nad yw Dadansoddi'r Sefyllfa a Dadansoddi'r Ymateb yn ddulliau sy'n annibynnol ar ei gilydd. Mae'n rhesymol disgwyl y bydd BGCau yn eu defnyddio yn gyfnewidiol ac ochr yn ochr â'i gilydd, pan fo amgylchiadau yn gofyn am hynny. Ond mae hefyd yn rhesymol mynnu bod Dadansoddi'r Sefyllfa a Dadansoddi'r Ymateb yn fwy addas at ddibenion penodol. Mae Dadansoddi'r Sefyllfa yn fwy addas ar gyfer asesu llesiant ar lefel gymharol uchel, tra bo Dadansoddi'r Ymateb yn fwy addas er mwyn deall materion yn fanylach a chwmpasu atebion posibl. Ar y sail hon, awgrymir y canlynol:

- Bydd yr Asesiad o Lesiant Lleol yn cynnwys Dadansoddi'r Sefyllfa yn bennaf. Er nad os unrhyw reolau pendant yn llywodraethu'r cyfrannau, byddai'n briodol i anelu at 80-90% o Ddadansoddi'r Sefyllfa a 10-20% o Ddadansoddi'r Ymateb o fewn yr Asesiad.
- Yn realistig, dylai *rhan fwyaf* o Ddadansoddi'r Ymateb ddigwydd ar ôl cwblhau'r Asesiad. Ar hyn o bryd, dylai pob BGC nodi is-set o ardaloedd blaenoriaeth er mwyn cynnal dadansoddiad pellach, yn seiliedig ar Ddadansoddi'r Sefyllfa.
- Bydd yr ardaloedd blaenoriaeth hyn yn destun i archwiliad ac ymchwil pellach, i lywio datblygiad yr amcanion llesiant ar gyfer yr ardal ac yn ei dro, y Cynllun Llesiant Lleol.

Mae Ffigur 1 yn dangos sut mae Dadansoddi'r Sefyllfa (yn syml yr Asesiad o Lesiant Lleol) yn canolbwyntio ar ystod cymharol eang o bynciau, lle y caiff is-

set ei nodi ar gyfer archwiliad pellach wrth Ddadansoddi'r Ymateb (sy'n awgrymu mai hwn fydd sail y Cynllun Llesiant Lleol).

Ffigur 1: Y berthynas rhwng Dadansoddi'r Sefyllfa ac Ymateb



Fel y mae Ffigur 1 yn awgrymu, mae'n rhesymol y bydd Dadansoddi'r Ymateb, gan ei fod yn gymharol fanwl ac yn fwy ymchwiliol ei natur, yn digwydd ar ystod gymharol gul o bynciau, gan eu nodi drwy Ddadansoddi'r Sefyllfa. Mae'n afrealistig Dadansoddi'r Ymateb ar yr ystod lawn o bynciau sydd wedi'u cynnwys yn yr Asesiad o Lesiant Lleol. Er nad ydym yn ymdrin â hi yma, byddai'r broses ar gyfer dewis is-set o flaenoriaethau yn seiliedig ar Ddadansoddi'r Sefyllfa yn ddefnyddol yn broses wrthrychol a chadarn, gan wneud defnydd helaeth o'r dystiolaeth a'r cyngor ategol.

Dadansoddi'r Ymateb mewn Asesiadau o Lesiant Lleol

Os bydd yr Asesiad o Lesiant Lleol yn cynnwys 80-90% o Ddadansoddi'r Sefyllfa, mae angen ystyried beth y gallai'r elfen 10-20% o Ddadansoddi'r Ymateb ei gynnwys. Er nad oes unrhyw amodau yn ymwneud â hyn, gallai'r 10-20% yn ddefnyddiol wneud y canlyniol:

1. Dechrau gofyn 'sut', 'pam' a 'felly?' – edrych tu hwnt i'r patrymau a'r tueddiadau sylfaenol yn y Dadansoddiad o'r Sefyllfa i nodi pa waith ychwanegol y gallai fod angen ei gwblhau er mwyn gwella dealltwriaeth, er enghraifft³:
 - Mae'r gyfran o bobl ifanc NEET yn yr ardal wedi gostwng, ond nid ydym yn gwybod a yw/sut mae ein hymyriadau NEET wedi cyfrannu at y gostyngiad hwn. Byddwn yn cynnal peth gwaith ymchwil pellach i archwilio hyn fel rhan o'n Dadansoddiad o'r Ymateb.
 - Mae ein tystiolaeth o ymgysylltu â'r cyhoedd yn awgrymu bod ein preswylwyr yn rhoi gwerth uchel ar fynediad i fannau gwyrdd ac yn ystyried hyn fel ased i'r ardal. Ni wyddom a yw hyn wedi'i adlewyrchu yn ymddygiad pobl, o ran sut, a pha mor aml, maent yn defnyddio mannau gwyrdd. Byddwn yn comisiynu peth gwaith i gasglu data er mwyn mynd i'r afael â'r cwestiwn hwn, a fydd yn

³Mae'r rhain yn enghreifftiau damcaniaethol i ddangos y mathau o gwestiynau y gellid eu gofyn er mwyn eu dadansoddi yn nes ymlaen

llywio ein strategaeth ar gyfer rheoli mannau gwyrdd yr ardal a hyrwyddo gweithgarwch corfforol.

- Mae ein data yn dangos bod gordewdra mewn plentyndod yn broblem benodol i'r ardal ac mae gennym ystod o ymyriadau sy'n ceisio mynd i'r afael â'r mater drwy ddulliau amrywiol. Er mwyn llywio penderfyniad y BGC ynglŷn â pha ymyriadau i'w cefnogi ac i fuddsoddi ynddynt, byddwn yn nodi gwersi o dystiolaeth ryngwladol a ffurfio barn ar y mathau o ddulliau sydd fwyaf tebygol o lwyddo.
- Mae Dadansoddi'r Sefyllfa yn nodi bod llifogydd wedi dod yn fwyfwy cyffredin yn ardal hon o'r dalgylch, sydd wedi'i waethygu gan broblem draenio hirsefydlog ymhellach i fyny'r afon. Byddwn yn cynnal peth gwaith ymchwil i weld sut y mae hyn wedi effeithio ar lesiant cymdeithasol ac economaidd preswylwyr, yn enwedig gan fod yr ardal yn gymdeithasol-ddifreintiedig a bod ei gallu i wrthsefyll hyn wedi cael ei effeithio gan gyfres o lifogydd.

Yn y senario hwn, rôl Dadansoddi'r Ymateb yn yr Asesiad o Lesiant Lleol yw gosod y sylfeini ar gyfer ymchwil a dadansoddi pellach i lywio'r Cynllun Llesiant Lleol. Nid oes angen iddo geisio *mynd i'r afael â'r* cwestiynau ar y cam hwn (oni bai bod y dystiolaeth i wneud hynny ar gael – caiff hyn ei drafod ymhellach ym mhwynt 3 isod).

2. Ymgorffori tystiolaeth bresennol, lle mae'n helpu i gyfoethogi dealltwriaeth - er enghraifft:
 - Efallai y bydd peth gwaith gwerthuso wedi cael ei gynnal eisoes a bydd yn nodi p'un a yw gwasanaethau presennol yn effeithiol ai peidio.
 - Byddai dadansoddi data eilaidd yn gymharol syml yn caniatáu dealltwriaeth fwy cynnil o fater penodol a'i achosion.
 - Mae'r dystiolaeth ehangach ar ymyriadau effeithiol yn glir ynglŷn â pha ddulliau sy'n debygol o weithio;
 - Ceisiwyd cyngor arbenigol – ffurfiol neu anffurfiol - sy'n helpu i ddatblygu esboniad neu'n agor meysydd pellach i'w harchwilio.
3. Trafod bylchau a chyfyngiadau tystiolaeth – mae'n bwysig rheoli disgwyliadau o'r hyn y gall Dadansoddiad o'r Ymateb dilynol ei gyflawni. Fwy na thebyg gellid mynd i'r afael â rhai bylchau mewn tystiolaeth a chwestiynau yn y cyfnod rhwng cyhoeddi'r Asesiad a chwblhau'r Cynllun Llesiant Lleol (e.e. ymhelaethu ar faterion lleol penodol drwy ymchwil ansoddol). Fodd bynnag, bydd eraill yn rhy gymhleth, costus neu hirdymor i'w goresgyn, waeth beth yw'r cyfnod o amser a'r adnoddau sydd ar gael (e.e. profi ymyriadau gwahanol i leihau tlodi mewn gwaith, sy'n gwestiwn ymchwil cymhleth a thrawsbynciol). Gallai'r Asesiad fod yn gyfrwng defnyddiol i ddod â rhai o'r ystyriaethau a chyfnewidiadau hyn i'r wyneb, hyd yn oed os byddant yn cael eu trafod ar y cyd, ac nad ydynt wedi'u cynnwys yn y cyhoeddiad.

Mae hefyd yn bwysig mynd i'r afael â bylchau a chyfyngiadau yn agored yn y sail dystiolaeth i Asesiadau ac i drafod eu goblygiadau. Er enghraifft, os bydd tystiolaeth yn anghyflawn neu'n amwys, neu os bydd gwendidau

yn y dulliau casglu, mae'n well gwneud y pryderon hyn yn amlwg a bod yn glir ynglŷn â pha dybiaethau y mae eich Aseidiad yn eu datblygu. Bydd bod yn fwy agored am fylchau a chyfyngiadau yn atgyfnerthu hyder yn yr Aseidiadau ac yn rhoi gwell ymdeimlad o'r hyn sydd angen ei wneud ar y cyd i gryfhau'r sail dystiolaeth yn y dyfodol.

Goblygiadau Cynlluniau Llesiant Lleol

Mae gan y meysydd yr ymdriniwyd â nhw o fewn y canllaw ychwanegol hwn oblygiadau o ran y gwaith a fydd yn parhau ar ôl i'r Aseidiadau o Lesiant Lleol gael eu cwblhau. Fel ffordd o orffen y canllaw ychwanegol hwn, amlinellir rhai o'r ystyriaethau hyn isod:

- Bydd yn bwysig iawn gosod nodau a disgwyliadau realistig ynglŷn â'r hyn y gall Dadansoddi'r Ymateb ei gyflawni o fewn yr amser a'r adnoddau sydd ar gael. Gall fod angen derbyn, mewn rhai achosion, y bydd y dystiolaeth y mae'r amcanion llesiant a'r Cynlluniau Llesiant Lleol yn seiliedig arni yn anghyflawn neu na fydd yn gwbwl addas at y diben.
- Gall casglu tystiolaeth neu ymchwil bellach fod yn rhan annatod o'r Cynllun Llesiant Lleol, os gall dealltwriaeth ddyfnach o unrhyw fater gyfrannu at wella llesiant lleol – h.y. fel rhan o'i Gynllun Llesiant Lleol, gallai BGC gynnwys peth ymchwil fanwl ar bwnc penodol neu werthusiad peilot o rai mentrau newydd.
- Gan ei bod yn debygol y bydd elfen o gyffredinrwydd rhwng ardaloedd ynghylch y prif faterion a nodwyd o fewn yr Aseidiadau, bydd cwrpas sylweddol ar gyfer cydweithio ac ymchwil ar y cyd i leihau dyblygu a manteisio i'r eithaf ar ansawdd y dystiolaeth sydd ar gael i lywio Cynlluniau Llesiant Lleol.

**Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Is-adran Ymchwil Gymdeithasol
Llywodraeth Cymru**